

Y Pwyllgor Diwylliant CC-1-02(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher 9 Ionawr 2002

Amser: 9.00am-12.30pm

Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Swyddogion

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Russell Thomas (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

Hefyd yn bresennol:

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd y Pwyllgor ar yr adolygiad o'r Gymraeg)

Datganiadau o fuddiant:

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Rosemary Butler – Cadeirydd Bwrdd Cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.
- Dafydd Wigley – ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru.

Sylwadau rhagarweiniol

- Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am y cyfarfod ychwanegol brynhawn dydd lau nesaf (17 Ion) am 2pm pan fyddai'r Pwyllgor yn trafod yr adolygiad ag aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Byddai Adroddiad gan y Gweinidog hefyd ar y diwrnod hwnnw.
- Bu'r aelodau'n trafod y daith arfaethedig i Wlad y Basg. Cytunwyd oherwydd ei bod yn anodd cael dyddiad addas pan fyddai'r holl aelodau ar gael, nad oedd taith o'r fath yn hanfodol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r ymgynghorydd arbenigol ac i ymgynghorydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes baratoi papur ar y cyd ynghylch yr hyn y gellid ei ddysgu o brofiad y Basgiaid. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r Ysgrifenyddiaeth edrych ar bosibilrwydd gwahodd cynrychiolwyr o'r weinyddiaeth yng Ngwlad y Basg i roi tystiolaeth i'r adolygiad.
- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn edrych ar yr adolygiad iaith y prynhawn hwnnw a bod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno tystiolaeth i'r adolygiad.
- Bu trafodaeth fer ar 'bapur safbwynt' y Cadeirydd ar yr adolygiad. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau am sylwadau ar y papur cyn iddo gael ei drafod yn ffurfiol gan y Pwyllgor ym mis Chwefror.
- Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai'n dadorchuddio portread o Colin Jackson gan yr arlunydd Ceri Thomas yn Neuadd y Cynulliad ar Ionawr 10fed.

Eitem 1: Yr Adolygiad o'r Gymraeg

Papurau: CC-1-02(p'au1-6)

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan gynrychiolwyr Cylch yr Iaith. Roeddent bellach wedi eu gwahodd i'r sesiwn ym Mhontyberem ar 6 Chwefror.

Sefydliad

BBC Cymru

Cynrychiolwyr:

Menna Richards, Rheolwr

Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni Cymraeg

Manon Williams, Pennaeth Materion Cyhoeddus

Nodwyd y pwyntiau allweddol hyn yng nghyflwyniad BBC Cymru:

- Rhoddodd Menna Richards amlinelliad o ddatblygiadau diweddar yn BBC Cymru ac o rai a oedd i ddod. Roedd y rhain yn cynnwys lansio BBC2 W, sianel ddigidol newydd i Gymru.
- Roedd Radio Cymru bellach yn cael ei ddarlledu drwy gyfrwng lloeren ac mae ymchwil yn dangos bod 1 mewn 5 o wrandawyr Radio Cymru rhwng 15 a 30 oed bellach yn gwrandao trwy'r cyfrwng hwnnw.
- Byddai gwasanaeth ar-lein y BBC, Cymru a'r Byd, yn y dyfodol yn dangos tua hanner cant o bapurau bro a chymuned, gan gynnwys yr Herald Cymraeg o Gaernarfon, a byddai hynny'n ei gwneud yn haws i bobl y tu allan i'r 'broydd Cymraeg' gael darllen newyddiaduraeth brint yn Gymraeg.
- Roedd Pennaeth Talent newydd wedi ei benodi yn ddiweddar i feithrin awduron a chyflwynwyr yn Gymraeg a Saesneg.
- Bu cryn ddatblygiadau hefyd ym maes technoleg. Cymru a'r Byd yw'r gwasanaeth newyddion Cymraeg mwyaf cynhwysfawr ar y we ac mae wedi datblygu syniad newydd, sef cael dau rith ddarllenwr newyddion.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ymateb i sylw gan y Cadeirydd ynglŷn ag oedran y cyflwynwyr materion cyfoes ar Radio Cymru, nid oedd Menna Richards yn cytuno nad oedd digon o gyflwynwyr o'r genhedlaeth iau.
- Wrth ateb cwestiwn ynglŷn â lleoliad daearyddol ei staff, dywedodd y BBC eu bod yn cyflogi tua 1000 o staff yng Nghymru, 900 ohonynt yng Nghaerdydd, 80 ym Mangor a 12 yn Wrecsam. Mae Caernarfon yn cael ei ystyried fel un ganolfan ar gyfer y safleoedd ar-lein newydd. Bwriedir i raglenni'r BBC adlewyrchu pob rhan o Gymru.
- Gofynnwyd i'r BBC am ymateb i ddyfyniad o bapur Mercator am Radio Cymru, 'nad yw'n bwysig cael un orsaf radio i bawb'. Atebwyd y byddai ail orsaf radio Gymraeg yn golygu

cost ychwanegol, y byddai'n rhaid iddi gael ei chymeradwyo gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r rheolyddion ac y byddai goblygiadau hefyd i ddarllidwyr masnachol. Roedd ymchwil a wnaed i wrandawyr Radio Cymru yn awgrymu bod proffil gwrandawyr yr orsaf yn adlewyrchiad pur ffyddlon o broffil siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

- Dywedodd cynrychiolwyr y BBC fod cyflwyno gwasanaethau amrediad llydan yn golygu y gellid cyflwyno'r cwricwlwm ar-lein yn syth i ysgolion.
- Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y bwriadai'r BBC fesur llwyddiant swydd newydd y Pennaeth Talent, dywedodd y BBC y byddai'r gwerthusiad yn ansoddol yn ogystal â meintiol.
- Mynegodd aelodau bryder nad oedd rhai rhannau o Gymru yn edrych ar orsafoedd teledu Cymru a'i bod yn aml yn well ganddynt droi at orsafoedd rhanbarthol eraill y BBC. Roedd y BBC hefyd yn pryderu ynghylch hynny ac roedd llawer o'i strategaeth ymchwil yn anelu at geisio deall y rhesymau pam y mae pobl yn gwylio ac yn gwrandao ar raglenni arbennig. Mae'r BBC yn annog pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg a ddarparant trwy'r safleoedd 'Where I Live'. Bydd y rhain yn hoelio sylw ar gymunedau, gan gynnig canolfan ddrws-agored y gall defnyddwyr ymweld â hi.

Sefydliad

S4C

Cynrychiolwyr:

Huw Jones, Prif Weithredwr

John Howells, Ysgrifennydd

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Roedd teledu yn gyfrwng unigryw o ran y dylanwad a gaiff ar fywydau pobl. Mewn marchnad lle mae 554 o sianeli teledu trwyddedig, S4C yw'r unig un sy'n cynnig rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â'r gwasanaeth daearol, mae'n darlledu deuddeg awr o raglenni Cymraeg y dydd ar ei wasanaeth digidol, S4C2.
- Wynebair S4C lawer her er mwyn bywiogi'r sianel a'r iaith. Roedd y sefydliad yn gwbl ymwybodol o bosibiliadau'r cyfryngau newydd ac yn ddiweddar buddsoddodd £350k ar ddatblygu safleoedd Rhyngryd cysylltiedig â'i raglenni ei hun.
- Roedd S4C hefyd yn cynnig budd arbennig er cynorthwyo'r gwahanol sectorau addysg yng Nghymru, trwy raglenni fel *Planed Plant* (i blant) a *Now You're Talking* i ddysgwyr o oedolion.
- Roedd y corff hefyd wedi buddsoddi'n drwm yn noniau'r dyfodol ac wedi penodi aelod o

staff yn benodol i ddatblygu talent.

Gwnaed y pwyntiau allweddol hyn yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn yn gofyn a oedd S4C yn ateb galwadau newydd ei chynulleidfa Gymraeg greiddiol, atebodd Mr Jones fod hon yn un her a wynebai'r sefydliad. Mae S4C yn cynnal cryn dipyn o ymchwil i alwadau'r gynulleidfa ac wedi ffurfio 19 o grwpiau ffocws ledled Cymru at y diben hwn. Y nod yn y pen draw yw cynhyrchu rhaglenni yr oedd pawb yn dymuno edrych arnynt. Nid oedd S4C yn hawlio ei bod yn gwbl lwyddiannus yn hyn o beth yn achos pob agwedd ar ei rhaglenni, ond mae ganddi hanes da o estyn ei gwasanaeth i gynnwys y di-Gymraeg. Mae 75% o'i chynnyrch Gymraeg bellach ar gael ag isdeitlau.
- Bob wythnos o'r flwyddyn mae tua 700,000 o bobl yn tiwnio i mewn i raglenni Cymraeg ar S4C. Mae hyn oddeutu 70-75% o'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith.
- O ran y swyddi a gynigir gan S4C, mae 40% o holl wariant y cwmni yn digwydd yn ardaloedd Amcan 1. Lleolir y mwyafrif o staff S4C yn y pencadlys yng Nghaerdydd, er bod aelodau o'r tîm comisiynu a'r adran ymchwil wedi eu lleoli mewn rhannau eraill o Gymru.
- Wrth ateb cwestiwn yn holi a oedd Cymru yn mynd i allu cadw at y dyddiad ar gyfer diffodd y gwasanaeth analog, ym marn S4C roedd yn annhebygol y byddai'r amserlen yn cael ei gwireddu, ond byddem ymhell ar y ffordd tuag at hynny. Teimlai Mr Jones y byddai'r Deyrnas Unedig yn un o'r gwledydd cyntaf i fynd yn gwbl ddigidol. Byddai gwir fanteision i Gymru ddigidol a dylai'r Cynulliad eu hystyried o ddifrif.
- Cytunodd Mr Jones i roi manylion pellach i'r pwyllgor am fuddsoddiad S4C mewn hyfforddiant ac ysgoloriaethau.
- Wrth ateb cwestiwn yn holi a fyddai S4C yn ystyried symud ei phencadlys i un o gadarnleoedd y Gymraeg, roedd Mr Jones yn derbyn ei bod yn bwysig lleoli diwydiannau yn yr ardaloedd hynny a darparu cyfleoedd i bobl ifanc aros mewn cymunedau lleol. Er hynny, byddai'n rhaid i'r Cynulliad ddarparu ysgogiadau sylweddol i hynny fod yn bosibl. Byddai costau adleoli yn sylweddol a byddai'n rhaid cael hyd i'r arian ar draul rhaglenni. Ni allai'r cwmni gyfiawnhau hynny. Gofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr S4C am nodyn ar oblygiadau ymarferol adleoli. Dywedodd Mr Jones y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod nesaf awdurdod S4C.
- Wrth ateb cwestiwn yn holi oni ddylai S4C ganolbwyntio ar wella ansawdd ei rhaglenni yn hytrach na datblygu sianel ddigidol, dywedodd Mrs Jones fod hwn yn bwynt allweddol. Cynigiai'r sianel ddigidol gyfleoedd ychwanegol i wylwyr wyllo rhaglenni a oedd wedi eu dangos gyntaf ar y gwasanaeth daearol.
- Mae S4C wedi darlledu sawl rhaglen boblogaidd wedi ei hanelu at ddysgwyr y Gymraeg: gofynnodd 5,000 o bobl am y pecyn gwybodaeth yn dilyn yr ymgyrch "Welsh in a Week" diweddar.
- Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben trwy ofyn i S4C a fyddai'n rhannu â'r Pwyllgor ei hymchwil i agweddau tuag at y Gymraeg.

Sefydliad

Golwg

Cynrychiolydd:

Dylan Iorwerth, Rheolwr Olygydd

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Eglurodd Mr Iorwerth mai ei farn bersonol ei hun oedd y datganiadau yn ei bapur yn hytrach na rhai Golwg.
- Teimlai fod yr adolygiad hwn yn un o'r cyfleoedd olaf i gymryd camau cadarnhaol i achub y Gymraeg.
- Ffurfiwyd Golwg ym 1988 a'i leoli'n fwriadol yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Un o amcanion y cwmni oedd creu swyddi da a fyddai'n denu pobl ifanc. Un arall oedd cynhyrchu cyhoeddiadau uchel eu safon yn y Gymraeg, ac o'r rheiny, y cylchgrawn materion cyfoes wythnosol, *Golwg* yw'r blaenaf.
- Rhoddodd Mr Iorwerth enghraifft gyfatebol o fyd yr amgylchedd o'r camau yr oedd angen eu cymryd i amddiffyn yr iaith. Pan oedd rhywogaeth brin mewn perygl, meddai, cymerir camau i'w diogelu ac atal unrhyw ddirywiad pellach. Mae angen creu cynefinoedd lle gall y rhywogaeth ffynnu.
- Nid gweithio mewn un iaith a chyfieithu i un arall oedd ystyr dwyieithrwydd. Dylai Cymru anelu at roi cyfathrebu dwyieithog ar waith, lle y caiff deunyddiau eu creu yn y ddwy iaith fel rhan o'r broses naturiol.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Credai Mr Iorwerth fod gwir berygl y byddai'r Gymraeg yn peidio â bod yn iaith gymunedol oni châi ei defnyddio'n ddiwylliannol a chymdeithasol. Roedd perygl difrifol i'r Gymraeg droi'n iaith buarth yr ysgol (ystafell ddosbarth??), dogfennau swyddogol a'r cyfryngau darlledu yn unig.
- Mae angen mwy o fuddsoddi yn y Gymraeg yn y maes addysg ôl-16. Dylai ELWa geisio sicrhau na chollir sgiliau Cymraeg a dwyieithog rhwng y lefel cyn-16 a'r ôl-16.
- Wrth ateb cwestiwn yn gofyn beth a olygai wrth 'statws oddefol' y Gymraeg, dywedodd Mr Iorwerth mai iaith 'a gyfieithir' yw'r Gymraeg ar hyn o bryd. Dylem fod yn symud tuag at sefyllfa lle câi gweithio'n ddwyieithog ei dderbyn fel sefyllfa arferol.
- Nid oedd Mr Iorwerth yn rhannu'r farn nad oedd person yn Gymro neu'n Gymraes iawn os nad oedd yn siarad Cymraeg. Ond roedd yn credu bod dwyieithrwydd yn cyfoethogi bywyd person.
- Dylid sicrhau bod mewnfudwyr i Gymru yn fwy ymwybodol o'r diwylliant a'r iaith Gymraeg nag ydynt ar hyn o bryd.

- Roedd cylchrediad *Go/wg* rhwng 3,000 a 3,500. Roedd trosiant blynyddol y cwmni oddeutu £800,000, ond roedd ei gostau'n amrywio o'r naill gyhoeddiad i'r llall.
- Byddai cyhoeddi papur newydd dyddiol Cymraeg yn gam mawr ymlaen i'r iaith, ond dim ond pe datblygai'r iaith sylfaen diwylliannol cadarn y byddai papur o'r fath yn llwyddiant.

Sefydliad

Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC)

Cynrychiolwyr:

Sybil Crouch, Cadeirydd

Peter Tyndall, Prif Weithredwr

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymwybodol o gyfraniad y celfyddydau i egni a bywiogrwydd y Gymraeg. Mae cysylltiad annatod rhwng y celfyddydau yng Nghymru a'r Gymraeg.
- Mae CCC ar fin cychwyn ar gyfnod o ailwampio, gan ddod â'i wasanaethau yn nes at gymunedau lleol ac ymateb i anghenion ardaloedd Cymraeg eu hiaith.
- Bu Theatr yn y Gymraeg yn aml yn elfen allweddol mewn mynegiant celfyddydol yn y gorffennol. Mae CCC wedi clustnodi tua £250k yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer datblygu'r ddrama Gymraeg.
- Yn dilyn colli nifer o gwmnïau theatr Cymraeg, mae CCC yn cydnabod yr angen i adfywio'r sector hwn. Uchelgais y Cyngor yn y pen draw yw y dylai cynrychiadau o safon uchel yn Gymraeg fod ar gael ledled Cymru a thrwy gydol y flwyddyn. Bwriedir i gyllid i Sgript Cymru hyrwyddo ysgrifennu o safon uchel ar gyfer y llwyfan yn Gymraeg.
- Mae Theatr Mwldan yn Aberteifi a Dociau Victoria yng Nghaernarfon yn ddwy enghraifft o fuddsoddi celfyddydol diweddar yng nghadarnleoedd y Gymraeg.
- I orffen, dywedodd Cadeirydd CCC fod dyfodol yr iaith a datblygiad dwyieithrwydd yn dibynnu fel ei gilydd ar fodolaeth diwylliant cyfoes llawn egni. Bwriad CCC oedd llunio rhaglenni a fyddai'n fodd i hynny ddigwydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn am leoliad posibl y Cwmni Theatr Cenedlaethol Cymraeg, dywedodd Sybil Crouch ei bod yn bwysig nid yn unig bod y cwmni yn wirioneddol genedlaethol ei safbwynt, ond hefyd ei fod yn cael ei leoli mewn ardal a fyddai'n medi ffrwyth ei fodolaeth.
- Roedd cynrychiolwyr CCC yn cyfaddef bod angen perthynas weithio agosach â

darlledwyr er mwyn meithrin doniau ifanc. Roedd angen sicrhau bod doniau ym myd darlledu yn bwydo'r theatr fyw yn yr un ffordd ag yr oedd theatr fyw yn bwydo darlledu.

- Wrth ateb cwestiwn yn holi ynglŷn â gwariant canrannol CCC ar ddarpariaeth yn y Gymraeg, dywedodd Cadeirydd CCC nad oedd y ffigurau wrth law ganddi ar y pryd ond y gellid rhoi bras ffigur i'r Pwyllgor ar ddyddiad diweddarach.
- Mae 42% o staff CCC yn siarad Cymraeg. Mae CCC yn annog ei staff i weithio'n ddwyieithog ac yn darparu cyrsiau amser cinio i ddysgwyr y Gymraeg. Mae swyddfeydd CCC ym Mae Colwyn a Chaerfyrddin yn gweithio bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn y gorffennol bu'n anodd denu cynulleidfaoedd ar gyfer cynyrchiadau theatr Cymraeg, ond diffyg buddsoddi oedd yn bennaf cyfrifol am y trafferthion hyn.

Sefydliad

Mercator

Cynrychiolwyr:

Ned Thomas

Elin Haf Gruffydd Jones

George Jones

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae profiad llawer o genhedloedd a rhanbarthau Ewrop wedi dangos bod ieithoedd yn ffynnu orau pan roddir arweiniad gwleidyddol cryf iddynt. Rhaid i Gymru beidio â gorffwys ar yr hyn a gyflawnwyd yn ieithyddol yn y gorffennol, e.e. sefydlu S4C.
- Roedd Mercator yn bendant o'r farn y byddai cael cynrychiolaeth Gymreig ar lefel wleidyddol mewn cynadleddau rhyngwladol yn ffordd o gyfnewid profiadau a dod â Chymru i mewn i brif ffrwd syniadaeth Ewropeaidd ar ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol. Yng Nghymru mae cymysgu yn rhy aml rhwng materion hil ac iaith.
- Mae teledu yn y Gymraeg yn gryf iawn ond mae'r wasg ysgrifenedig yn wan. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n gryf â'r Ffindir, er enghraifft, lle mae 10 papur dyddiol yn gwasanaethu 300,000 o siaradwyr Swedeg. Mae Mercator yn y broses o baratoi cynllun i weld a fyddai'n ymarferol cynhyrchu papur newydd dyddiol Cymraeg neu beidio.
- Roedd y gyfundrefn Addysg Uwch yng Nghymru hefyd yn gymharol wan ei chefnogaeth i'r Gymraeg. Pwysodd Ned Thomas am i'r Pwyllgor annog y Cyngor Cyllido Addysg Uwch i roi mwy o gefnogaeth ym maes technoleg iaith.
- Roedd Gwlad y Basg yn enghraifft loyw o ddarparu ar gyfer iaith frodorol. Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth yno wedi ffurfio Pwyllgor tebyg i Cymru'n Creu, â Chynrychiolwyr o

amryfal ddiddordebau sectoraidd, sy'n cydnabod bod iaith yn allweddol i bob agwedd ar fywyd Basgaid. Mae gan Wlad y Basg brofiad cadarnhaol hefyd o hyrwyddo'r iaith yn fewnol yn y gwasanaeth sifil. Yn ogystal â chynnig cyrsiau iaith, mae mentoriaid yn helpu gweision sifil i ddysgu'r iaith.

- Mae Cataluña yn enghraifft dda o amrywiaeth yn y cyfryngau darlledu, lle ceir nifer o sianeli digidol sy'n apelio at gynulleidfaoedd arbenigol, e.e. mae sianel i blant sy'n darlledu yn y Gatalaneg.
- Yn achos y radio, credai cynrychiolwyr Mercator nad oedd yn foddhaol i un gwasanaeth cenedlaethol geisio plesio pawb. Yn Llydaw mae 15 o orsafoedd radio lleol a rhanbarthol sy'n darlledu peth o'u cynnyrch yn Llydaweg.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn am y papurau newydd mewn iaith leiafrifol yn y Ffindir, dywedodd Ned Thomas fod y 10 papur newydd dyddiol yn gwasanaethu'r gymuned Swedeg ei hiaith, a oedd yn ddim ond 5.6% o'r boblogaeth. Roedd hyn yn cael ei wneud yn bennaf trwy ewyllys da a chymhorthdal. Trwy greu partneriaethau addas a pheirianwaith ar gyfer dosbarthu i'r farchnad Gymraeg, credai Mercator y byddai modd sefydlu a chynnal papur o'r fath yng Nghymru.
- Ymddengys fod statws cyfreithiol y Fasgeg a'r Gatalaneg – a ddynodwyd yn ieithoedd swyddogol – yn gryfach na statws cyfreithiol y Gymraeg ac mae hynny wedi cyfrannu at greu amgylchedd ffyniannus i'r ieithoedd hyn.
- Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben trwy ofyn i Mercator am nodyn pellach yn dangos arferion da ym maes ieithoedd lleiafrifoedd ledled Ewrop. Gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth ddosbarthu'r papur *The General Plan for Promoting Basque Language Use* i aelodau'r Pwyllgor.

Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr

Papur: CC-19-01(min)

Cytunwyd ar y rhain heb unrhyw newidiadau.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2002